# DEDDF TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4 - Gwarediadau Trethadwy A Wneir Mewn Lleoedd Heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

### *Pennod 7 – Amrywiol*

### Darpariaeth bellach mewn perthynas â'r dreth

#### *Adran 88 – Addasu contractau*

161. Mae adran 88 yn darparu pan fo:

   a. gwarediad trethadwy yn cael ei wneud ar safle tirlenwi awdurdodedig,

   b. contract yn ei le sy'n darparu ar gyfer gwneud taliad am y gwarediad hwnnw, ac

   c. y dreth sydd i'w chodi ar y gwarediad hwnnw yn newid o ganlyniad i ddeddfiad sy'n ymwneud â TGT,

bod y taliad o dan y contract ar gyfer y gwarediad hwnnw i'w addasu i adlewyrchu'r newid yn y dreth sydd i'w chodi ar y gwarediad, oni bai bod y contract yn darparu fel arall.

#### *Adran 89 – P#er i osod atebolrwydd eilaidd ar reolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig*

162. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i reolwr safle tirlenwi awdurdodedig (neu ran o safle o'r fath), dalu'r dreth sydd i'w chodi ar warediadau a wneir ar y safle (neu'r rhan o dan sylw). Rheolwr yw'r person heblaw gweithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig sy'n rheoli penderfyniadau am yr hyn y mae modd ei waredu ar y safle, ond nad yw'n gwneud y penderfyniadau hynny fel gweithiwr neu asiant yn unig.

#### *Adran 90 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*

163. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol y mae'r Ddeddf hon yn eu gwneud i DCRhT.

#### *Adran 91 - Arfer pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon*

164. Mae is-adran (1)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru wrth arfer eu dyletswyddau a'u pwerau o dan y Ddeddf hon.

165. Mae is-adran (1)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi sylw, yn ogystal, i unrhyw faterion eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol. Gallai’r materion eraill hyn gynnwys ffactorau masnachol, cyllidol, iechyd y cyhoedd neu ffactorau amgylcheddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol annog mathau penodol o warediadau i safleoedd tirlenwi er mwyn lleihau’r niwed posibl i’r amgylchedd.

166. Effaith is-adran (2) yw nad yw’n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i’r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi pan fyddant yn arfer eu pwerau a’u dyletswyddau o dan adran 92 mewn perthynas â Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

### *Adran 92 – Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

167. Mae adran 92 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer arian grant er budd cymunedau yr effeithir arnynt gan warediadau tirlenwi neu weithgarwch paratoi ar gyfer tirlenwi, megis gweithgarwch mewn gorsafoedd trosglwyddo gwastraff. Gall y Cynllun ddarparu i’r grantiau gael eu dyrannu drwy gyfeirio at feini prawf penodedig a gallant fod yn ddarostyngedig i amodau a nodir yn y Cynllun neu gan Weinidogion Cymru yn y cynigion grant. Rhagwelir y gall y meini prawf penodedig gynnwys cyfeiriadau at fioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau cymdeithasol neu amgylcheddol eraill i’r gymuned, ymysg pethau eraill. Cyhoeddir manylion am y ffordd y bydd y Cynllun yn gweithredu ar wahân ar yr adeg y daw TGT yn weithredol ym mis Ebrill 2018 neu cyn hynny.

168. Mae adran 92(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu’r Cynllun o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 4 blynedd ar ôl ei gyhoeddi am y tro cyntaf a chynnal adolygiadau pellach fesul cyfnod o ddim mwy na 4 blynedd ar ôl yr adolygiad cyntaf. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau priodol wrth adolygu’r Cynllun.

169. Mae adran 92(5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu’r Cynllun yn dilyn adolygiad, ond ni chaniateir dirymu’r Cynllun o fewn y 4 blynedd gyntaf. Mae adran 92(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw Gynllun diwygiedig.

170. Mae adran 92(7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod y Cynllun, ac unrhyw fersiynau diwygiedig diweddarach ohono, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.